Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Crughywel
# Ffordd Newydd
# Crughywel
# Powys
# NP8 1AW

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/11/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gydaddysgol 11-19 yw Ysgol Uwchradd Crughywel, a gynhelir gan awdurdod lleol Powys. Daw disgyblion o dref Crughywel, y pentrefi cyfagos a'r gymuned wledig. Mae nifer sylweddol yn dewis dod ar draws y ffin o Sir Fynwy.

Mae 746 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn 2006, yn cynnwys 198 yn y chweched dosbarth. Er bod disgyblion yn dod o'r ystod lawn o amgylchiadau economaidd gymdeithasol, daw'r mwyafrif helaeth o gefndiroedd sy'n gymdeithasol ac yn economaidd freintiedig.

Mae gan lai na 5% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17.4%. Mae tua 16% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol. Canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yw 2.7%, o gymharu â 2.6% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae tua 4% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol neu hil gymysg. Mae cyfran fach iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes bron unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith neu i safon gyfwerth.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2010, ar ôl bod yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol er 2006 cyn hynny. Dechreuodd dirprwy bennaeth newydd ar ei swydd ym Mehefin 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Crughywel yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,768 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,577 a'r isafswm yw £3,671. Mae Ysgol Uwchradd Crughywel yn y 12fed safle o'r 13 ysgol uwchradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Crughywel yn ysgol dda oherwydd:

- bod safonau'n dda ac yn gwella'n gyson;
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac wrth ddatblygu a mireinio eu medrau;
- bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff, eu bod wedi'u cymell yn dda ac yn ymddiddori yn eu dysgu, ac yn dangos medrau cymdeithasol a bywyd datblygedig;
- bod profiadau dysgu'n paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer cyfleoedd a chyfrifoldebau bywyd oedolyn;
- bod yr addysgu yn gyffredinol yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu cyfnod dysgu nesaf; a
- bod trefniadau effeithiol sy'n arwain ac yn cynorthwyo disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu hiechyd, eu lles a'u dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- bod y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ac effeithiol;
- bod uwch arweinwr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella;
- bod y cynllun datblygu'r ysgol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella;
- bod trefniadau partneriaeth effeithiol yn gwella ansawdd profiadau dysgu disgyblion ac yn gwella eu lles; a
- bod yr ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.

## Argymhellion

A1 parhau i godi safonau, yn enwedig yn y meysydd hynny lle mae tanberfformio cymharol;

A2 gwella trefniadaeth y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau i sicrhau profiadau dysgu mwy cydlynol a dilyniadol;

A3 gwella ansawdd yr addysgu, yn arbennig i herio disgyblion mwy abl, i gyd-fynd â'r arfer orau yn yr ysgol;

A4 sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd y marcio; a

A5 gwella ansawdd hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar lefel rheolwyr canol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion ac adrodd eu canfyddiadau wrth Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy’n cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella’n gyson er 2008. Mae wedi rhoi’r ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim trwy gydol y cyfnod hwn. Yn 2011, roedd perfformiad yn unol â disgwyliadau wedi’u modelu. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos gwelliant pellach sylweddol yn y dangosydd hwn. Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy’n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella’n gyflym yn y pedair blynedd diwethaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, ond mae wedi bod islaw cyfartaleddau’r teulu yn y cyfnod hwn yn gyffredinol. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos gwelliannau yn y dangosyddion hyn. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod ymhell islaw cyfartaleddau ysgolion tebyg yn y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy’n cyflawni’r dangosydd pwnc craidd wedi gwella’n gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2012, roedd perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu ac uwchlaw’r perfformiad disgwyliedig o gymharu â disgwyliadau wedi’u modelu. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella yn y pedair blynedd diwethaf ac mae’n cymharu’n dda â pherfformiad ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae myfyrwyr yn perfformio’n dda, a dyfarnwyd y graddau A* ac A uchaf i ychydig dros hanner yr holl fyfyrwyr Safon Uwch yn 2011. Llwyddodd yr holl fyfyrwyr i gyflawni Bagloriaeth Cymru.

Yn y pum mlynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster. Mae cyfran uchel yn aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed yr adroddwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae’r gyfran hon yn llawer gwell na chyfartaleddau’r awdurdod lleol a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad merched a bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011, roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na chyfartaleddau’r teulu a Chymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae hyn yn bennaf am fod bechgyn yn perfformio’n well o gymharu ag ysgolion tebyg na merched.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni’n dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl a dawnus bob amser yn gwneud digon o gynnydd i gyflawni eu potensial.

Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn ymestyn eu gwybodaeth, yn caffael dealltwriaeth gadarn o syniadau newydd, ac yn datblygu a mireinio eu medrau'n dda. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn dadansoddi ac yn cymhwyso ystod o wybodaeth newydd i lunio barnau meddylgar ac ystyrlon.

Mewn rhai gwersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda, maent yn mynd i'r afael â heriau gyda hyder, yn cymhwyso technegau yn systematig ac yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddatrys problemau ac ymgymryd â thasgau anghyfarwydd. Maent yn arfarnu eu gwaith yn dda ac yn gosod targedau realistig iddyn nhw eu hunain ar gyfer gwella. Mewn lleiafrif o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig, mae hyn yn bennaf am nad yw gweithgareddau dysgu'n eu herio digon neu am nad oes digon o ddyfnder a manylder i'w gwaith.

Mae medrau siarad a gwrando disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn astud ar safbwyntiau a barn pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau a'u barn yn glir ac yn hyderus. Mae disgyblion mwy abl yn aml yn siarad yn huawdl iawn.

Mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant da. Gallant ddethol gwybodaeth o destunau i lunio barnau a chreu dadleuon rhesymol a gwybodus. Mae'r disgyblion hynny nad ydynt yn meddu ar y medrau darllen sy'n galluogi iddynt gymryd rhan yn holl feysydd y cwricwlwm yn gwneud cynnydd da, er enghraifft yn y grwpiau ymyrraeth a gynlluniwyd i ddatblygu'r medrau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Defnyddiant ystod dda o eirfa yn briodol i greu effaith. Mae llawer ohonynt, yn cynnwys disgyblion llai abl, yn ysgrifennu adroddiadau estynedig diddorol, yn sillafu'n gywir ac yn defnyddio atalnodi a gramadeg yn briodol. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi esgeulus ac yn cyflwyno eu gwaith yn wael. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd yn dda, gyda disgyblion mwy abl yn llunio dadansoddiadau a chyfansoddiadau creadigol strwythuredig.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, cyfran fach yn unig o'r garfan sy'n dilyn cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith, ond mae'r disgyblion hyn yn perfformio'n dda. Nid yw'r deilliannau ar gyfer y cwrs byr yr un mor gryf. Mae medrau siarad disgyblion mewn gwersi Cymraeg yn dda. Mewn cyd-destunau eraill, mae disgyblion yn ennill mwy o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

**Lles: Da**

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff. Maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio ac yn dweud bod rhywun y gallant siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at fyw a bwyta'n iach. Yn ogystal ag ymgyrchu'n llwyddiannus i gyflwyno bar salad yn y ffreutur, mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae disgyblion wedi'u cymell yn dda, yn ymddiddori yn eu dysgu, ac yn gweithio'n gynhyrchiol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi a thra byddant yn symud o gwmpas yr ysgol a'r gymuned leol. Maent yn gwrtais ac yn gydweithredol iawn, ac yn dangos parch at ei gilydd, staff a'r cyhoedd. Mae disgyblion yn llysgenhadon effeithiol iawn ar gyfer yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn cyd-fynd yn fras â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y blynyddoedd diwethaf, a nifer fach o waharddiadau cyfnod penodol a gafwyd.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb a dylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn fforwm llwyddiannus ar gyfer gwrando ar farn disgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu'n ddefnyddiol at weithgareddau fel cyfweld i benodi staff newydd a gwella amgylchedd yr ysgol.

Mae gan ddisgyblion rôl arwyddocaol yn y gymuned leol trwy weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, eu rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin a'u cyfranogiad helaeth mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gwirfoddoli a chodi arian at elusennau. Trwy'r rhain, yn ogystal ag ystod o weithgareddau eraill, mae disgyblion yn caffael y medrau sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod o bynciau a gynigir yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn bodloni gofynion statudol, yn cynnwys y Mesur Dysgu a Sgiliau. Fodd bynnag, nid yw trefniadau carwsél a grwpiau addysgu rhanedig mewn lleiafrif bach o bynciau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 bob amser yn cyfrannu at brofiadau dysgu cydlynol a dilyniadol i leiafrif o ddisgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o opsiynau academaidd a galwedigaethol trwy gydweithio a reolir yn dda gyda darparwyr eraill. Mae hyn wedi ehangu'r ystod o gyrsiau galwedigaethol lefel 2 ac wedi gwella deilliannau, er enghraifft wrth godi trothwy lefel 2. Mae pob disgybl yn y chweched dosbarth yn elwa ar drefniadaeth a rheolaeth hynod effeithiol ar y cwricwlwm a Bagloriaeth Cymru yn arbennig.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn amrywio gormod. Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 10 yn cael y cyfle i ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r trefniadau i gydlynu ac olrhain darpariaeth medrau.

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn ddigonol. Mae'r dimensiwn Cymreig i'w weld mewn pynciau heblaw Cymraeg, ond nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n gyson ar draws holl feysydd gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol hanes cryf iawn o ddarparu ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'n hyrwyddo ei harfer dda yn lleol a thrwy rwydweithiau ehangach. Mae disgyblion yn elwa o gymryd rhan yn rheolaidd mewn ystod eang o brosiectau ymwybyddiaeth a chodi arian, yn cynnwys prosiect adfywio lleol sy'n annog disgyblion i ymddiddori mewn cadwraeth a chynaliadwyedd. Mae'r ysgol yn un o'r ychydig iawn o ysgolion uwchradd yng Nghymru i ennill Gwobr Blatinwm Ecosgolion.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol eang yn dda. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol sy'n helpu i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi ystyrlon sy'n annog disgyblion i feddwl yn ofalus ac yn ymestyn eu dealltwriaeth.

Mewn rhai gwersi, mae tasgau ysgogol ac amser-penodol hynod heriol, yn ogystal â holi treiddgar athrawon, yn cyfrannu at ddysgu effeithiol iawn. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn gosod amcanion clir, yn cynllunio ystod addas o weithgareddau dysgu ac yn darparu deunyddiau symbylu defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn creu cysylltiadau defnyddiol â dysgu blaenorol neu faterion a digwyddiadau cyfoes yn aml i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion. Mewn llawer o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd da i weithio mewn parau mewn grwpiau bach i ddatrys problemau, cynorthwyo ei gilydd a datblygu eu medrau cyfathrebu.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, oherwydd:

- nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ac nid ydynt yn gosod tasgau sy'n cynnwys her addas, yn enwedig i ddisgyblion mwy abl;
- bod y wers yn symud yn rhy araf, nid yw disgyblion yn cael digon o amser i gwblhau tasgau ac ni chyflawnir amcanion dysgu; neu
- ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ysgol wedi datblygu system gynhwysfawr a chlir ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r data hwn ar y cyfan i osod targedau heriol ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau.

Mae'r adborth llafar a roddir i ddisgyblion mewn gwersi yn dda ar y cyfan ac yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn fwy amrywiol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae gormod o achosion pan na roddir gwybodaeth glir a phenodol i ddisgyblion am y safonau maent yn eu cyrraedd a sut i wella.

Mae'r adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn nodi'r cynnydd y mae'r disgyblion yn ei wneud. Nid ydynt bob amser yn nodi'n glir sut gall disgyblion wella ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal ar gyfer disgyblion. Mae'r trefniadau effeithiol iawn sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at iechyd, lles a dysgu'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a phresenoldeb.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth da i ddisgyblion fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae pynciau fel addysg gorfforol, addysg bersonol a chymdeithasol, gwyddoniaeth ac economeg y cartref yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o fyw yn iach. Mae cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol, y Gwobrau Ysgolion Iach a Grŵp Gweithredu Maeth yr Ysgol yn hyrwyddo byw yn iach a buddion diet iach ymhellach.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r fframwaith bugeiliol o themâu wythnosol a dyddiol, ac agweddau yr ymdrinnir â nhw mewn gwersi astudiaethau crefyddol, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill ac ystyried materion moesol a chyfoes pwysig.

Caiff yr ysgol fynediad da at wasanaethau arbenigol, ac mae'n gweithio gydag ystod o bartneriaid ac asiantaethau i ddarparu arweiniad a chyngor a chefnogi lles disgyblion unigol. Darperir gwybodaeth a chyngor mewn modd effeithiol, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am y cyrsiau maent yn eu dilyn yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da â'u dysgu. Mae hon yn system ddefnyddiol i asesu anghenion disgyblion cyn neu wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol i gymryd rhan yn llawn yn y cwricwlwm ac ym mywyd yr ysgol, a chyflawni deilliannau da. Mae cynlluniau addysg unigol yn gynhwysfawr, yn gosod targedau addas ac fe gânt eu hadolygu'n rheolaidd. Rhoddir gwybodaeth dda i rieni ac fe gânt eu cynnwys yn llawn yn addysg eu plentyn.

Mae polisïau a threfniadau priodol ar gyfer diogelu sy'n bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn achosi unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff pawb ei annog i wneud ei orau. Mae ethos o oddefgarwch, sydd wedi'i seilio'n gadarn ar barch ar y ddwy ochr a gwerthfawrogiad o amrywiaeth, yn treiddio trwy'r ysgol.

Caiff pob disgybl yr un cyfle i gymryd rhan yn y cwricwlwm. Mae'r cyfleusterau ar gyfer y rhai ag anawsterau symudedd yn arbennig o dda.

At ei gilydd, mae'r adeiladau'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae ansawdd y ganolfan adnoddau dysgu yn arbennig o dda. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda, ac mae tirwedd y safle yn gwella'r amgylchedd dysgu'n fawr.

Mae arddangosiadau ysgogol o amgylch yr ysgol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion. Mae adnoddau dysgu'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae'r ddarpariaeth o ran offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol, a'r defnydd a wneir ohonynt, yn arbennig o dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, sy'n cael cymorth abl gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth, yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ac effeithiol. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn rhannu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo disgwyliadau uchel sy'n golygu mai dyma yw'r peth pwysicaf o ran eu cyfrifoldebau.

Mae rolau rheoli yn sicrhau bod gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth ystod gytbwys a chyflenwol o gyfrifoldebau. Mae'r ffaith fod rolau a chyfrifoldebau staff wedi cael eu hailddiffinio'n ddiweddar wedi sicrhau ffocws craffach ar ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu. Rhoddir mwy o bwyslais ar ddefnyddio data i osod targedau addas a monitro deilliannau. Mae hyn yn rhoi mwy o her i staff a disgyblion ac atebolrwydd cynyddol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith sylweddol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac fe gânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm arweinyddiaeth a chyfarfodydd ar gyfer rheolwyr canol yn rhoi cyfleoedd addas i drafod mentrau gwella a chynllunio gwaith pellach. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn cynnig her a chymorth, ac yn nodi anghenion datblygu staff perthnasol.

At ei gilydd, mae rheolwyr canol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae'r mwyafrif yn defnyddio data'n dda i fonitro perfformiad. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y graddau y mae rheolwyr canol wedi rhoi strategaethau gwella penodol ar waith, fel sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd y marcio.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol a'i blaenoriaethau allweddol. Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ac maent yn gwerthfawrogi'n gadarn ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae llywodraethwyr yn cynnig cymorth a her adeiladol i'r ysgol, lle bo'n briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae trefniadau hunanarfarnu yn cynnwys dadansoddi data'n drylwyr a rhaglen arsylwadau gwersi rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella, sy'n cael eu nodi'n glir yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol.

Mae ansawdd adroddiadau adrannol yn amrywio. Mae'r mwyafrif yn llunio barnau realistig am berfformiad disgyblion, ond nid yw lleiafrif o adroddiadau yn rhoi arfarniad digon trylwyr. Ym mhob achos, ni wneir digon o ddefnydd o ganfyddiadau arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a safbwyntiau dysgwyr i gefnogi barnau ar safonau a darpariaeth.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn darparu sylfaen dda ar gyfer gwella. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau hunanarfarnu. Mae blaenoriaethau'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, gwella addysgu a dysgu, a gwella llythrennedd a rhifedd. Mae'r cynllun yn amlinellu ystod o gamau, cyfrifoldebau priodol a meini prawf llwyddiant addas.

Mae cynlluniau adrannol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae lleiafrif ohonynt yn amlinellu ystod o gamau ac yn cynnwys targedau gwella clir a mesuradwy. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cynlluniau'n drylwyr ac nid ydynt yn cynnwys ffocws. Nid yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys camau defnyddiol ar gyfer gwella na meini prawf llwyddiant penodol.

Mae trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella ysgol gyfan. Mae pob aelod o staff yn ymwneud â gweithgorau yn yr ysgol, a nifer o bartneriaid allanol. Megis dechrau datblygu y mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn. Mae arsylwadau cymheiriaid wedi helpu i hyrwyddo arfer dda ar draws yr ysgol hefyd.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â thri o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Mae safonau wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, ac mae'r ysgol yn cynnig ystod ehangach o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a chwricwlwm mwy cytbwys yng nghyfnod allweddol 3. Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn ansawdd yr adeiladau a'r adnoddau hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu ac yn cryfhau trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i wella ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion a gwella eu lles.

Mae cysylltiadau da gyda rhieni. Trwy ystod o gyfryngau cyfathrebu megis gwefan yr ysgol, porth ar-lein, twitter, cylchlythyrau a fforwm rhieni, caiff rhieni wybodaeth briodol am ddatblygiadau yn yr ysgol a pherfformiad disgyblion. Eir i'r afael yn brydlon ac yn effeithiol â phryderon rhieni.

Mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd yn cyfrannu at drefniadau pontio effeithiol, ac at barhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd eraill ym Mhowys ac ysgolion yn y 'teulu' i hyrwyddo arfer orau a gwella adnoddau dysgu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda yn rhwydwaith 14-19 De Powys i ymestyn yr ystod o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae trefniadau cadarn i fonitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ar raglenni cydweithredol.

Mae partneriaethau gweithio helaeth gydag asiantaethau allanol fel Coleg Powys, Gyrfa Cymru, yr heddlu, y gwasanaeth tân a gwasanaethau ieuenctid yn trefnu darpariaeth arbenigol i helpu bodloni anghenion disgyblion.

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau gydag ystod o grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyrwyddo lles a medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion.  Mae 'Ffrindiau Ysgol Uwchradd Crughywel' yn helpu i godi proffil yr ysgol yn y gymuned ac yn codi arian ar gyfer prosiectau penodol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.  Mae ganddi nifer ddigonol o staff sy'n meddu ar gymwysterau da i addysgu'r cwricwlwm, er nad ydynt bob amser yn cael eu defnyddio yn eu meysydd arbenigol.  Rhoddir cymorth priodol i'r rhai sy'n addysgu pwnc heblaw eu pwnc arbenigol.  Gwneir defnydd da o dîm effeithiol o gynorthwywyr cymorth dysgu i gynorthwyo athrawon yn eu gwaith gyda disgyblion.

Mae'r rheolwr busnes yn cydlynu rheolaeth ariannol yr ysgol yn effeithiol.  Mae'n sicrhau bod yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i argymhellion archwilio ac yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol.  Caiff y corff llywodraethol drosolwg da o gyllideb yr ysgol, ac mae'n sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu hariannu'n briodol.  Mae'n gweithio'n dda gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth i nodi cyllid ychwanegol i wella ansawdd adeiladau ac adnoddau.

Gan fod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn sgil deilliannau da gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella'n gyson er 2008 er iddo fod islaw cyfartaledd y teulu trwy gydol y cyfnod hwn. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad yn cyd-fynd â disgwyliadau wedi'u modelu. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn dangos patrwm o welliant cyson rhwng 2007 a 2010 ond bu gostyngiad sylweddol mewn perfformiad yn 2011. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos mwy o gynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, a gwelliant yn y dangosydd pwnc craidd.

Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn 2011, ac roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu ar ôl bod yn is nag ef am y pedair blynedd flaenorol. Roedd perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio islaw cyfartaledd y teulu. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos mwy o gynnydd yn nhrothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio fel ei gilydd.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi bod yn anghyson dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2011, roedd islaw cyfartaledd y teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos gwelliant yn nhrothwy lefel 1.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, ond mae wedi bod islaw cyfartaleddau'r teulu yn y cyfnod hwn ar y cyfan. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos bod mwy o welliannau yn y pynciau hyn. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod ymhell islaw cyfartaleddau ysgolion tebyg yn y tair blynedd diwethaf.

Yn 2011, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster. Mae cyfran uchel yn aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Adroddir mai ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae'r gyfran hon yn llawer gwell na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn 2012, gan gynnal gwelliant cyson o wyth pwynt canran dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2012, roedd perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf mewn pedair blynedd. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn yr hanner uchaf ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu â disgwyliadau wedi'u modelu, roedd perfformiad yn 2012 uwchlaw'r perfformiad disgwyliedig.

Mewn Saesneg, mae perfformiad wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf.  Yn 2012, roedd perfformiad yn cyd-fynd â chyfartaledd y teulu.  O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner uchaf ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.  Bu gwelliant mewn perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 ac yn uwch yn 2012, ond bu islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf.  Yn 2012, roedd perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu.  O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner uchaf ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.  Ar lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu trwy gydol y cyfnod hwn.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn anghyson, ond gwelwyd gwelliant yn 2012.  Yn 2012, roedd perfformiad yn cyd-fynd â chyfartaledd y teulu.  O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner uchaf ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae myfyrwyr yn perfformio uwchlaw cyfartaleddau Cymru ar gyfer trothwy lefel 3 ac ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach.  Yn 2011, roedd perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach, ond islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer trothwy lefel 3.  Dyfarnwyd y graddau A*/A uchaf i'r holl ymgeiswyr Safon Uwch yn 2011.  Llwyddodd pob myfyriwr i gyflawni Bagloriaeth Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd pwnc craidd, roedd y bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn yn fwy na chyfartaledd Cymru yn 2012.  Fodd bynnag, yn y ddwy flynedd flaenorol, roedd bechgyn wedi perfformio'n well na merched.  Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011, roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.  Mae hyn yn bennaf am fod bechgyn yn perfformio'n well mewn perthynas â chyfartaleddau'r teulu na merched.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, ac felly nid oes modd nodi tueddiadau a phatrymau yn y grŵp hwn o ddisgyblion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 68 o ymatebion i'r holiadur i rieni. O'r rhai a ymatebodd, rhoddodd llawer o rieni ymatebion cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i bob cwestiwn. At ei gilydd, roedd ymatebion rhieni ychydig yn llai cadarnhaol na meincnodau cenedlaethol.

Mae llawer o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn credu ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un o'r rhieni'n nodi bod eu plant yn ddiogel ac yn hoffi'r ysgol, ac yn dweud y cafodd eu plant gymorth i ymgynefino'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau a gwibdeithiau allgyrsiol, ac yn dweud bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da, bod yr addysgu'n dda, a bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau. Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n nodi bod staff yn cynorthwyo eu plant yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu'r coleg neu waith.

Mae llawer o rieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Maent yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 181 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Mewn llawer o achosion, mae ymatebion dysgwyr yn fwy cadarnhaol na meincnodau cenedlaethol.

Dywed bron pob dysgwr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod rhywun y gallant droi ato/ati os bydd ganddynt unrhyw bryderon, ac mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn credu eu bod yn gwneud yn dda, eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb ac yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, tra bod llawer ohonynt yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer.

Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach a bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae llawer o ddysgwyr yn cadarnhau bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu, tra bod bron pob un ohonynt yn nodi bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.  Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.  Dywed llawer o ddysgwyr fod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| John Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Davies | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Denise Whiting-Wade | Arolygydd Tîm |
| Andrew Herdman | Arolygydd Tîm |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Maria Rimmer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sally Dawkins | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion<br><br>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |